**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

**National Assembly for Wales**
Communities, Equality and Local Government Committee

**Huw Lewis AC**
**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**

2 Chwefror 2016

Annwyl Weinidog

**Strategaeth Cynhwysiant Ariannol ar ei newydd wedd**

Ar 27 Ionawr 2016, bu'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi mewn cyfarfod o'r Pwyllgor i ateb cwestiynau ar strategaeth cynhwysiant ariannol newydd Llywodraeth Cymru, y disgwylir ei chyhoeddi ym mis Mawrth 2016.

Yn ystod y cyfarfod, dywedodd y Gweinidog wrthym y bydd llythyr cylch gwaith 2016-17 at Estyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer adolygiad thematig o ansawdd y ddarpariaeth addysg ariannol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Rwy'n deall bod ymrwymiad i adolygiad o'r fath wedi'i roi i'r Cynulliad yn ystod y ddadl Cyfnod 1 ar y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru), a gyflwynwyd gan Bethan Jenkins AC.

Hoffai'r Pwyllgor gael rhagor o wybodaeth gennych am yr adolygiad thematig hwn. Byddai gennym ddiddordeb arbennig mewn gwybod mwy am yr amserlenni ar gyfer y gwaith a pha flaenoriaeth yr hoffech iddo'i chael ochr yn ochr â'r meysydd eraill y gofynnir i Estyn edrych arnynt.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych yn fuan.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCCLLL@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCCLLL
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCELG@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCELG
0300 200 6565

Yn gywir

**Christine Chapman AC**
Cadeirydd